Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**The Towers day Nursery Ltd**

**Ffordd Llangollen**
**Acrefair**
**Wrecsam**
**LL14 3SG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

23/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â The Towers Day Nursery Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br><br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | The Towers Day Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 23 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw]<br>11 Mawrth 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw]<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn mwynhau'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael. Maent yn hapus ac yn hyderus yn eu hamgylchedd ac yn rhyngweithio'n briodol. Mae'r plant yn cael mynediad i brofiadau sy'n eu galluogi i ddatblygu ystod o sgiliau ac i fod yn annibynnol.

Mae'r staff yn darparu gofal addas sy'n cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn hyrwyddo ffordd iach o fyw, gan sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i fod yn egnïol a chael awyr iach. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd sy'n cefnogi eu datblygiad ac yn annog sgiliau cymdeithasol. Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn briodol ac yn darparu cyfleoedd priodol i gefnogi dysgu a datblygiad y plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn saff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan y plant ddigon o le i chwarae a dysgu. Maent wedi gwneud rhai gwelliannau cadarnhaol i'r amgylchedd er mwyn ei wneud yn fwy addas i blant ac yn fan lle y gall plant ddilyn eu diddordebau.

Mae'r datganiad o ddiben a'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith gan y bobl. Maent wedi adolygu'r gofal y maent yn ei ddarparu ac wedi gwneud rhai gwelliannau sydd o fudd i'r plant a'r gofal y maent yn ei dderbyn.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau ynglŷn â beth a ble y maent am chwarae. Maent yn symud yn hapus o'r ardal o dan do i'r ardal awyr agored gan ddewis yr adnoddau y maent am chwarae â nhw. Er enghraifft, aeth plentyn i mewn i nôl coets a dol yr oedd am chwarae â nhw y tu allan. Mae'r plant yn datgan beth yw eu hanghenion trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu geiriol neu dieiriau. Er enghraifft, dechreuodd baban glebran a phwyntio, gan ddangos ei fod am adael y pwll peli. Deallodd y staff y plentyn ac fe wnaethant ymateb yn briodol.

Mae'r plant yn ymgartrefu'n gymharol dda. Ar ôl cyrraedd, maent yn ymuno â'u ffrindiau yn hyderus ac yn dewis gweithgaredd i'w gwneud. Mae'r plant sydd ychydig yn ansicr yn cael cysur a chefnogaeth briodol ac yn dechrau mwynhau eu chwarae yn fuan. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r staff a'r drefn, sy'n eu helpu i ymlacio a theimlo'n hapus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, roedd y plant yn gwybod bod angen iddynt ymolchi eu dwylo cyn byrbryd a chinio.

Mae'r plant yn dysgu i gydweithredu a pharchu ei gilydd a'r adnoddau. Maent yn chwarae gyda'i gilydd, gan rannu'r gofod a'r teganau mewn modd sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cyfnod datblygiad. Er enghraifft, roedd babanod a oedd yn chwarae gyda'r peli synhwyraidd yn eu pasio i'w gilydd ac yn gwenu wrth ryngweithio. Mae rhai o'r plant yn helpu i dacluso pan ofynnir iddynt wneud hynny gan y staff.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgaredd neu brofiad chwarae y maent yn eu mwynhau ac sy'n caniatáu iddynt ddilyn eu diddordebau. Maent yn dangos eu bod yn mwynhau trwy wenu a chanu wrth chwarae. Roedd y plant eisiau i ni ymuno â'r gweithgareddau ac roedd rhai yn awyddus i rannu'r hyn yr oeddent yn ei wneud gydag eraill, gan ddangos eu bod yn mwynhau eu profiadau. Er enghraifft, cerdded o amgylch y feithrinfa a dangos i eraill beth oeddynt wedi penderfynu ei wisgo o'r ardal chwarae rôl. Roedd y plant yn defnyddio eu dychymyg yn ystod eu chwarae, yn esgus gwneud paneidiau o de i'r staff ac esgus bod y babi'n crio am ei fod wedi gorffen ei fwyd ac eisiau mwy.

Caiff bron pob un o’r plant gyfleoedd i fod yn annibynnol a datblygu ystod o sgiliau. Maent yn cael mynediad at yr adnoddau sydd ar gael ac yn symud yn rhydd o amgylch yr amgylchedd. Mae'r plant yn estyn eu heiddo eu hunain, megis eu cotiau i'w gwisgo cyn mynd allan. Roedd y plant yn awyddus i geisio bwydo eu hunain gan ddangos eu bod yn hyderus i fod yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn briodol er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae'r polisi diogelu wedi'i adolygu ac mae'r staff wedi mynychu hyfforddiant i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r weithdrefn y dylid ei dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn. Caiff presenoldeb y plant a'r staff ei gofnodi'n briodol fel y gellir cyfeirio ato os oes angen. Cynhelir ymarferion tân. Fodd bynnag, mae angen i'r staff sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n aml er mwyn sicrhau bod plant newydd wedi cael cyfle i ymarfer ac yn gwybod beth yw'r drefn i'w dilyn.

Mae'r staff yn cynnal arferion megis golchi dwylo a sychu byrddau a chadeiriau uchel er mwyn helpu i atal croeshalogi. Mae'r staff yn annog ac yn cefnogi'r plant i ddilyn ffordd iach o fyw. Mae'r bwyd a ddarperir yn faethlon ac yn amrywiol. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i gael awyr iach a bod yn egnïol yn yr awyr agored.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n briodol gyda'r plant. Maent yn eistedd ar eu lefel nhw ac yn ymuno yn eu profiadau chwarae a dysgu. Mae'r staff yn gwneud amser cinio a byrbryd yn brofiad cymdeithasol, gan eistedd wrth y bwrdd gyda nhw neu ar gadeiriau o flaen y plant sydd mewn cadeiriau uchel. Mae hyn yn caniatáu i sgyrsiau lifo'n rhydd. Mae'r staff yn gweithredu'r polisi rheoli ymddygiad yn briodol. Maent yn defnyddio strategaethau i dawelu sefyllfaoedd yn dda, megis pan fydd dau blentyn eisiau'r un tegan, mae'r staff yn tynnu eu sylw ac yn eu cael i gymryd diddordeb mewn gweithgaredd arall.

Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn briodol. Maent yn deall ac yn gweithredu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod y plant yn derbyn gofal priodol. Er enghraifft, roedd y plant iau a oedd wedi blino yn ystod amser cinio yn gallu cysgu a chael eu pwdinau yn ddiweddarach. Mae'r staff yn darparu adnoddau a gweithgareddau addas i gefnogi eu profiadau chwarae a dysgu. Mae'r cynnydd yn yr ardaloedd dysgu a gweithgareddau hygyrch yn helpu i gefnogi datblygiad y plant a'r ystod o weithgareddau sydd ganddynt. Mae'r staff yn caniatáu i'r plant roi cynnig ar bethau drostynt eu hunain cyn darparu cymorth priodol. Er enghraifft, roedd plentyn eisiau dod â cherbyd tegan mawr y tu allan. Caniataodd y staff iddo fynd i'w nôl ei hun, a dim ond pan oedd y plentyn yn ei chael yn anodd mynd i lawr y gris y darparwyd cymorth.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gweithdrefnau perthnasol ar waith. Mae'r amgylchedd yn ddiogel gan fod y brif fynedfa yn cael ei chadw dan glo. Mae'r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'n briodol. Er enghraifft, cedwir cofnod o'r bobl sy'n ymweld â'r lleoliad, ac mae'r staff yn rheoli'r fynedfa i osgoi mynediad heb awdurdod. Cynhelir asesiadau risg, caiff peryglon eu dileu ble bynnag y bo modd, neu cânt eu rheoli'n dda. Er enghraifft, defnyddio'r strap diogelwch wrth newid cewynnau'r plant i sicrhau na allant ddisgyn oddi ar y bwrdd newid.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu gofod addas ar gyfer y plant. Gellir eu grwpio yn ôl eu hoedran a chamau datblygu, sy'n caniatáu i'r ystafelloedd gael eu paratoi gyda chyfarpar ac adnoddau sy'n briodol i'w hoedran. Defnyddir dwy brif ystafell ar gyfer chwarae a dysgu a defnyddir ardal ar wahân ar gyfer gweithgareddau crefft a chinio. Caiff y rhan fwyaf o'r ardaloedd eu cynnal a'u cadw'n gymharol dda, ac mae'r gwelliannau a wnaed yn helpu i ddatblygu amgylchedd sy'n fwy addas i blant. Er enghraifft, mae mwy o ardaloedd dysgu sy’n hygyrch i'r plant wedi'u datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad i gornel chwarae rôl cartref ac ardal beintio. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys iard sy'n hygyrch iawn gan ei bod yn union y tu allan i un o'r prif ystafelloedd. Defnyddir yr ardal hon yn dda gyda digon o gyfleoedd i blant chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi adolygu'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael i'r plant yn ddiweddar. Mae hyn wedi arwain at y plant yn cael mynediad at adnoddau ac ardaloedd dysgu sydd yn fwy ysbrydoledig. Er enghraifft, mae ardal chwarae dŵr newydd wedi'i chreu y tu allan. Mae'r ardal yn cynnwys offer sefydlog y gall y plant arllwys dŵr iddynt a landeri a bwcedi ar wahân fel y gall y plant chwarae gan ddefnyddio mwy o'u dychymyg. Caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae peth fynediad at ddeunyddiau naturiol gan gynnwys tywod a dŵr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben priodol. Mae'n adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir ar hyn o bryd ac yn rhoi'r manylion sydd eu hangen ar rieni i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn ag addasrwydd y feithrinfa iddyn nhw a'u plentyn. Mae polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwrando ar gyngor a roddwyd yn yr arolygiad blaenorol. Maent wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i'r amgylchedd, y trefniadau arferol a'r adnoddau sydd wedi bod o fudd i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi adolygu eu lleoliad a'r gofal y maent yn ei gynnig yn ddiweddar. Maent wedi gwneud newidiadau i'r trefniadau arferol er mwyn cadw sylw'r plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod amser cinio yn drefnus fel nad yw'r plant yn aros am gyfnodau hir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn briodol. Maent yn sicrhau eu bod yn goruchwylio'r plant yn ddigonol, fel eu bod yn ddiogel ac yn derbyn sylw priodol i helpu eu datblygiad. Mae'r wybodaeth ofynnol ar gael i ddangos bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi eu sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant a'r gwiriadau cywir a'u bod yn meddu ar y profiad i sicrhau eu bod yn addas i ofalu am blant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn rhoi gwybod i'r rhieni am ddiwrnod eu plentyn trwy sgwrs ar ddiwedd diwrnod y plentyn yn y lleoliad. Maent yn gweithio gydag asiantaethau allanol pan fo angen i helpu i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal pan fydd plant newydd yn dechrau yn y lleoliad er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r drefn i'w dilyn pe bai argyfwng.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 03/11/2022